

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY GORCHYMYN AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014  
(Pennod 2)

## Nant Eirias a Lawnt Fowlio Parc Eirias, Bae Colwyn, Conwy

Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus Nant Eirias a Lawnt Fowlio Parc Eirias, Bae Colwyn 2017 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), yn cael ei fodloni bod yr amodau a nodir yn Adran 59 (2) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 ("y Ddeddf") wedi cael eu bodloni mewn perthynas â'r ardal a ddynodwyd gan y map atodol a adnabyddir fel Nant Eirias a Lawnt Fowlio Parc Eirias, Bae Colwyn, sef bod y gweithgareddau a gyflawnir mewn man cyhoeddus o fewn ardal yr awdurdod wedi achosi trosedd, anhrefn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael neu yn debygol o gael effaith niweidiol ar safon bywyd pobl yr ardal leol, a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal fel lleoliad twristaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod yr effaith, neu effaith debygol, o'r gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn barhaus neu o natur barhaus, ac mae'r gweithgareddau'n afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i fod yn yr holl amgylchiadau sy'n fuddiol i wneud y Gorchymyn hwn at y diben o leihau troseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Drwy arfer ei bwerau o dan Adranau 59 y Ddeddf ac o dan yr holl bwerau galluogi eraill, mae'r Cyngor drwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:


- (1) **Fod personau 17 oed ac iau, nad ydynt o dan reolaeth effeithiol rhiant neu oedolyn cyfrifol sy'n 18 oed neu'n hŷn, yn cael eu gwahardd rhag cwrdd mewn grwpiau o 3 neu fwy yn yr Ardal Gyfyngedig. Dim ond os yw unrhyw un o'r grŵp yn achosi aflonyddwch, braw neu ofid i berson arall bydd y gwaharddiad yn berthnasol.**
- (2) **Fod ymddwyn mewn modd sy'n achosi neu sy'n debygol o aflonyddu, dychryn neu ofid i berson arall wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**
- (3) **Fod achosi gormod o sŵn neu sŵn afresymol yn cael ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig**
- (4) **Fod yfed alcohol neu fod â chynwysyddion agored o alcohol yn eich meddiant wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**

**Mae'n drosedd i unigolyn heb esgus rhesymol gymryd rhan mewn gweithgaredd sydd wedi ei wahardd gan y Gorchymyn hwn. Mae unigolyn sy'n torri'r Gorchymyn hwn yn atebol ar golffarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.**

Bydd y Gorchymyn yn dod yn weithredol ar 30 Awst 2017 a bydd mewn grym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, os nad yw'n cael ei ymestyn ymhellach gan Orchymynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Os yw unrhyw berson â buddiant yn cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu i gynnwys unrhyw waharddiadau neu anghenion penodol a osodir gan y Gorchymyn hwn neu nad yw amodau'r Ddeddf wedi eu bodloni, yna gallant ymgeisio i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn.

Dyddiedig y 30 Awst 2017



Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai)